CYNGOR CYMUNED
LLANSTEFFAN A LLANYBRI
COMMUNITY COUNCIL

ADRODDIAD CYNGHORYDD SIR
20fed MEHEFIN 2022

COUNTY COUNCILLOR'S REPORT
JUNE 20th 2022

CYNGOR SIR - PWYLLGORAU:

Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai mae'r rhan fwyaf o bwyllgorau'r Cyngor Sir wedi eu sefydlu erbyn hyn. Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant, ac yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r ddau faes hwn yn agos at fy nghalon a byddaf yn gwneud fy ngorau i weithredu'r swyddi hyn yn effeithlon. Byddaf hefyd yn parhau'n Ymddiriedolwr ar ran y sir i Oriel Myrddin, ac yn aelod o'r Panel Ymgynghorol ar yr Iaith Gymraeg.

COUNTY COUNCIL - COMMITTEES:

Following the election in May most of the County Council committees have now been established. I have been appointed Chair of the Education and Children Scrutiny Committee and Vice Chair of the Planning Committee. These subjects are close to my heart and I will do my best to act effectively in both roles. I will also continue to act as a Trustee of Oriel Myrddin on behalf of the local authority, and will continue to sit on the Welsh Language Advisory Panel.

PWYLLGOR CYNLLUNIO:

Er mwyn sicrhau na fydd gwrthdaro'n digwydd ym maes Cynllunio, byddaf yn datgan yn glir ar ddechrau pob cyfarfod o'r Cyngor Cymuned lle bo cais cynllunio ar yr agenda: "Fel y gwyddoch, rydw i'n aelod ac yn Is-gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gâr. Mae pob hawl gen i i wrando ar y drafodaeth ynglyn â'r cais cynllunio sydd o flaen y Cyngor Cymuned heddiw a byddaf yn ateb cwestiynnau ar brosesau, trefnau a thermau. Fodd bynnag ni ddylid dehongli unrhyw gyfraniad fel barn ar ragoriaethau neu wendidau'r cais. Bydd fy mhenderfyniad ar y cais hwn yn cael ei wneud ar y tystiolaeth o 'mlaen yng nghyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Gâr."
Byddaf yn cyflwyno'r gadeiryddiaeth i'r Is-gadeirydd ar gyfer y drafodaeth a'r bleidlais.

PLANNING COMMITTEE:

In order to avoid any potential conflicts of interests on Planning matters, I will be stating clearly at any meeting where there is a planning application on the agenda: "As you know, I am a member of the Planning Committee of Carmarthenshire County Council. I am permitted to hear the discussion regarding the planning application before the Community Council today and will answer questions regarding process, procedure or terminology. However nothing I say should be interpreted as a view on the merits or otherwise of the application. The decision I make on this application will be made on evidence presented in the Planning Committee Meeting of Carmarthenshire County Council."
I will ask the Vice-chair to preside over the discussion and the vote.

YMGYNGHORIAD LLANSTEFFAN:

Ym mis Mawrth 2022 enillodd Cyngor Sir Gâr grant i gomisiynu ymgynghorydd annibynnol i gwblhau arolwg manwl o'r materion sy'n wynebu Llansteffan fel pentref twristiaeth bach, ac i gasglu sylwadau a barn y trigolion lleol ar gynaliadwyedd y gymuned. Yn anffodus, oherwydd Cyfyngiadau Cyn-etholiadol, ni allodd y Cyngor Sir na'r Aelod Lleol gyhoeddi'r wybodaeth yma tan ar ôl yr Etholiadau Lleol ar Fai 5ed. Yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri ym mis Mai gallodd y Cynghorydd Sir gyfleu newyddion manwl am y grant, ac mae'r ymgynghoriad nawr ar waith.

Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda Owen Davies Consulting i lunio Cynllun newydd i'r pentref fydd yn helpu i reoli'r tyfiant ym mhoblogrwydd Llansteffan fel atyniad i ymwelwyr ac i wella adnoddau cymunedol. Mae'r ardal wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n chwilio am fannau hardd, treftadaeth a gweithgareddau awyr-agored. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n ymweld wedi rhoi pwysau ar adeiladedd y pentref gan achosi problemau traffig, parcio anghyfreithlon a gwersylla dros nos. Bydd y Cynllun newydd yn ceisio taclo'r problemau hyn - yn sefydlu Llansteffan fel lleoliad diwrnod mas/gwyliau byr tra'n cefnogi busnesau lleol a gwarchod amwynder trigolion lleol.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn gweithio'n gyfochrog â'r ymchwiliad cyfredol at ddefnyddiau cyfreithlon o'r Village Green yn Llansteffan, ac mae Adran Gyfreithiol y sir yn randdeiliad pwysig yn y broses. Mae'r Cynghorydd Sir a'r Cyngor Cymuned yn pwyso ar Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir i gwblhau eu hymchwiliad i gyd-fynd ag argymhellion yr ymgynghorydd annibynnol, a disgwylir i'r prosiect gyflwyno casgliadau ym Medi/Hydref eleni.

Beth bynnag fydd canlyniad yr ymchwiliadau cyfreithiol i ddefnydd y tir dan sylw sydd ar waith ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Gâr, bydd angen buddsoddiad i ddarparu unrhyw amwynder neu wasanaethau i gwrdd ag anghenion yr ardal yn y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn darparu'r tystiolaeth angenrheidiol i gefnogi unrhyw geisiadau am arian grant i ymateb i'r problemau sy'n ein wynebu ar hyn o bryd o ran defnydd ein Village Green, parcio, gwersylla a materion eraill sydd heb eu datrys dros blynyddoedd maith.

Mae'r ynghoriad yn fyw o ddydd Gwener, 24ain o Fehefin, ac rydym yn annog rhanddeiliaid, grwpiau, trigolion ac ymwelwyr i gyflwyno eu sylwadau.

LLANSTEFFAN CONSULTATION:

During March 2022 Carmarthenshire County Council was awarded funding to commission an independent consultant to carry out a detailed survey of the issues facing Llansteffan as a small tourist village, and of the feelings and opinions of local residents on community sustainability. Unfortunately, Pre-election Restrictions barred the County Council and the Local Member from publishing this information until after the May 5th Local Elections. In the Llansteffan & Llanybri Community Council May meeting our County Councillor was able to deliver the news of the award in some detail, and the consultation process is now underway.

The County Council is working with Owen Davies Consulting to shape a new Plan for the village that will help to manage its growing popularity as a visitor destination and improve community facilities. Llansteffan has seen a growth in visitors looking to experience attractive environments, heritage and outdoor activities. However, the volume of visitors has also put pressure on the village infrastructure causing issues related to traffic volumes, illicit parking, and unauthorised overnight camping. How Llansteffan tackles these issues, whilst simultaneously growing as a 'day and stay' destination, supporting businesses and protecting the amenity of local residents, will be central to the new Plan.

This consultation will work in parallel with the ongoing investigation on permitted uses of the Village Green in Llansteffan, and the county's Legal Department is a lead stakeholder in the process. The County Councillor and the Community Council are putting pressure on the County Council Legal Department to conclude its investigations to coincide with the recommendations of the independent consultant, and the project is due to deliver its conclusions in September/October this year.

Whatever the outcome of the current legal investigations by Carmarthenshire County County into the uses of the land in question, investment will be required to provide any amenity or services to meet the future needs of the locality. This consultation will provide the necessary evidence to support funding applications to address the issues that are currently under consideration regarding uses of our Village Green, parking, camping and other matters which have remained unresolved over many years.

The consultation is live from Friday, 24th June, and all stakeholders, interested parties, residents and visitors are encouraged to submit their views.

HYFFORDDIANT CYNGHORWYR:

Mae rhaglen hyfforddiant y Cynghorwyr Sir ar droed erbyn hyn ac rydw i wedi mynychu naw seminar hyfforddi yn ddiweddar ar wahanol feysydd megis Cyfansoddiad y Cyngor, y Côd Ymddygiad, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac, wrth gwrs, Cynllunio a Chraffu. Bydd yr hyfforddiant yn parhau am rai misoedd eto, ac thros y tymor nesaf o bum mlynedd.

The County Councillors' training programme is well underway and I have recently attended nine training seminars on subjects such as the Council's Constitution, Code of Conduct, Equality and Diversity, and, of course, Planning and Scrutiny. The training will continue for some months yet, and throughout the five-year term.

YSTAFELL NEWYDDION Y SIR:

Ewch i Ystafell Newyddion Cyngor Sir Gâr am y newyddion diweddaraf yn ein hardal:
https://newyddion.sirgar.llyw.cymru/

COUNTY NEWSROOM:

Please visit the Carmarthenshire County Council Newsroom for all the latest local news:
https://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/